

CYNGOR SIR YNYS MON	
Pwyllgor:	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad:	22 Mawrth 2023
Teitl yr adroddiad:	Rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Pwrpas yr adroddiad:	Egluro cyfrifoldebau'r Pwyllgor a'r rhaglen waith ar gyfer 23/24
Awdur:	Pennaeth Democratiaeth

1. Cefndir

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu dyletswyddau a phwerau statudol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac yn cynnig rhaglen waith ddrafft ar gyfer 2023/24.

1.2 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gael Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i oruchwylio gwasanaethau democrataidd y Cyngor. Mae'n amserol i'r aelodau ystyried rôl a chyfrifoldebau'r pwyllgor wrth i ni agosáu at ddiwedd y flwyddyn ddinesig gyntaf ers etholiadau mis Mai 2022 ac er mwyn ystyried materion ar gyfer rhaglen waith 2023/24.

1.3 Er mwyn cydymffurfio gyda Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'n rhaid i awdurdod lleol benodi Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd er mwyn:

- (a) dynodi pennaeth statudol y gwasanaethau democrataidd
- (b) adolygu digonolrwydd darpariaeth yr awdurdod o staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, a
- (c) llunio adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod yn ymwneud â darpariaeth o'r fath.

- 1.4 Ni chaiff y Pwyllgor arfer unrhyw swyddogaethau eraill oni bai eu bod yn berthnasol i'r materion uchod. Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sydd i benderfynu sut i gyflawni'r swyddogaethau hynny.
- 1.5 Penodir cadeirydd y Pwyllgor gan y Cyngor llawn, ni chaiff fod yn aelod o grŵp a gynrychiolir ar y Pwyllgor Gwaith. Caiff yr is-gadeirydd ei (h)ethol gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl cyfarfod blynyddol y Cyngor ym mis Mai pob blwyddyn.
- 1.6 Mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi bydd naw aelod yn rhan o'r pwyllgor a bydd angen cael cydbwysedd gwleidyddol. Yn unol â'r ddeddfwriaeth, ni chaiff mwy nag un aelod o Bwyllgor Gwaith y Cyngor fod yn aelod o'r Pwyllgor.
- 1.7 Gall y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd alw aelodau a swyddogion yr awdurdod i fod yn bresennol o'i flaen er mwyn ateb cwestiynau. Gall y pwyllgor wahodd unigolion, cyrff neu sefydliadau eraill i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y pwyllgor. Mae cyfansoddiad y Cyngor yn gosod disgwyliad ar y Pwyllgor i gyfarfod pedair gwaith y flwyddyn, gyda'r hawl i drefnu cyfarfodydd eraill yn ôl yr angen.

2. Rhaglen 2023/24

2.1 Mae pedwar cyfarfod o'r Pwyllgor wedi eu rhaglennu ar gyfer 2023/24 ar y dyddiadau canlynol:

- 23 Mai 23 – cyfarfod blynyddol i ethol is-gadeirydd
- 28 Mehefin 23
- 29 Tachwedd 23
- 20 Mawrth 24

2.2 Mae busnes a rhaglen waith y Pwyllgor am y flwyddyn yn cynnwys y materion canlynol:

- Hyfforddiant a datblygu aelodau
- Trefniadau cefnogi er mwyn i aelodau gyflawni eu rolau
- Adolygu'r canllawiau a protocol mynychu cyfarfodydd o bell i aelodau
- Ymgynghori ar amseru cyfarfodydd a phwyllgorau'r Cyngor
- Deddfwriaeth ac ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar faterion democratiaeth leol
- Tâl a lwfansau Aelodau

2.3 Bydd yn ofynnol hefyd i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau i'r Cyngor llawn. Mae hynny wedi ei raglennu ar gyfer Medi.

3. **Argymhelliad**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi:

- dyletswyddau y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- rhaglen cyfarfodydd a busnes y Pwyllgor ar gyfer 2023/24.